Rhwydwaith Creadigol

gan Celfyddydau Gwirfoddol

Celfyddydau Lleol Cymru

**6 Awst 2020**

# Cyfleoedd newydd i gydweithio

**Mae'r potiau cyllid yn lleihau yn sgil pandemig COVID-19, sy'n golygu bod yn rhaid inni rannu adnoddau ond mae hefyd yn ein hannog i fwrw golwg ar wahanol ffyrdd o weithio. Yn sgil hyn, aethom ati i ddwyn i ystyriaeth a oedd modd nodweddu sefyllfa gyffredinol y sector celfyddydau yng Nghymru gan fathau newydd o gydweithio.**



Roedd yr unigolion yn meddu ar brofiad helaeth o wahanol fathau o gydweithio, o gydweithio anffurfiol gyda rhwydweithiau cefnogi gwerthfawr, i bartneriaethau ffurfiol lle mae gofynion ariannu ynghlwm. Soniwyd bod yn rhaid i holl gyrff cyhoeddus Cymru – a'r mudiadau maen nhw'n eu hariannu – gydymffurfio gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: sy'n cynnig fframwaith trosfwaol ac felly cyffredinedd o ran diben a gofyniad pendant i gydweithio.

Bu i sawl nodwedd bwysig ddod i'r amlwg wrth inni drafod enghreifftiau llwyddiannus o gydweithio, gan gynnwys meddu ar weledigaeth bendant ar y cyd, gwerthoedd tebyg, cydnabod arbenigedd gwahanol i'ch arbenigedd eich hun (does dim modd ichi fod yn arbenigwr ar bopeth) a threulio amser yn datblygu perthnasau ac ymddiriedaeth. Ar y llaw arall, bu inni sôn sut gall agendâu cudd ddod â chydweithio i ben, ynghyd â staff yn gadael : sut gallwn ni gynnal parhad a gofalu nad ydy partneriaeth lwyddiannus yn ddibynnol ar un neu ddau unigolyn?

Bu inni drafod sut gall gyllid hybu mudiadau i gydweithio, neu efallai yn fwy cyffredin tuag at gystadlu. At hyn bu inni drafod sut o bosib mai'r mudiadau mwyaf prysur a llwyddiannus ydy'r rheiny sydd yn hynod gystadleuol *ac yn* hynod gydweithredol. Soniwyd y buasai gofyn "Beth ydy'r broblem sydd angen inni fynd i'r afael â hi?" yn fan cychwyn da cyn ystyried "Pwy all helpu gyda hynny?" Bu inni hefyd drafod natur gwahanol fathau o gydweithio, o bartneriaethau cyflawni prosiect, ymarferol i bartneriaethau dysgu, mwy athronyddol.

**Cydweithio Cadarnhaol**

Bu inni sôn fod nifer o fudiadau'r sector preifat wedi'u sefydlu gyda'r amcan penodol o gael eu meithrin ymhen ychydig flynyddoedd. Fodd bynnag, prin iawn (os oes yna rai o gwbl?) ydy'r mudiadau celfyddydol sydd â'r amcan hwn. Yn aml iawn caiff cyfuno ei rhagdybio fel gweithred o gymryd yr awenau'n gyfan gwbl. Mewn gwirionedd fe ddylen ni ystyried y syniad o ddatblygu partneriaeth ffurfiol gyda mudiad arall. Gall casglu a rhannu asedau, adnoddau ac arbenigedd fod o fudd i'n buddiolwyr neu weledigaeth artistig.

**Ychydig awgrymiadau i gloi**

- A ddylai Byrddau neu uwch dimau rheoli gynnwys eitem barhaol ar eu hagenda sy'n eu hannog i ystyried cydweithio dichonol?
- Yn ogystal â chynnal dadansoddiad o gystadleuwyr, er enghraifft wrth lunio cais am gyllid, a ddylen ni hefyd ystyried cynnal dadansoddiad o gydweithwyr?
- A ddylen ni ddwyn i ystyriaeth cyfuno o gwbl?
- Sut allwn ni roi cynnig ar gydweithio er mwyn gweld a ydy'r cysyniad yn addas i'n mudiad ni?

*Mae'r #RhwydwaithCreadigol: Celfyddydau Lleol Cymru yn grŵp o bobl sy'n gweithio yn y sector diwylliannol creadigol yng Nghymru ac sy'n cyfarfod bob mis. Diben y rhwydwaith ydy rhannu syniadau, cynnig cefnogaeth, meithrin cydweithio a chysylltu datblygiad celfyddydau lleol gyda pholisïau cenedlaethol. Rydym yn cyfarfod dros Zoom am 9.30yb ar ddydd Iau cyntaf pob mis.*
*https://www.voluntaryarts.org/celfyddydau-lleol-cymru*